**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
**Enterprise and Business Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Julie James AC
y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

27 Tachwedd 2014

Annwyl Julie

**Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg**

Yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ddoe ar adroddiad y Pwyllgor ar Sgiliau STEM, dywedasoch y byddai Llywodraeth Cymru yn cymryd rhagor o amser i ystyried ein hargymhellion. Yn fy sylwadau wrth gloi, awgrymais y byddai'n ddefnyddiol cael cynllun gweithredu sy'n nodi mewn ffordd eglur a threfnus sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd â'r agenda bwysig hon yn ei blaen.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cynllun yn darlunio'r holl fentrau penodol a gynlluniwyd, yn enwedig y camau gweithredu ar gyfer yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, ynghyd â llinellau amser i ddangos pryd y caiff y camau hyn eu cyflawni.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir

William Graham AC
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Clerc / Clerk: Dr Siân Phipps, Ffôn /Tel: 029 2089 8582
E-bost/Email: pwyllgor.menter@cymru.gov.uk